



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

MAWRTH 2024

FLWYDDYN YN DDIWEDDARACH...

Cyflawni Mesurau Arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr dros y flwyddyn ddiwethaf





Cynnwys

1. Datganiad agoriadol	p3
2. Cefndir:	
• Trosolwg o'r dull a ddefnyddiwyd, ein pum canlyniad ac Adroddiadau Cau'r Cylch.	p4
3. Darganfyddiad – Adolygiadau Annibynnol:	p5
• Trosolwg o statws pob adroddiad.	
• Crynodeb o bwrpas yr adroddiad, yr argymhellion a wnaed a'r camau a gymerwyd.	
• Themâu allweddol a mabwysiadu dull thematig.	
4. Cynnydd yn y naw mis cyntaf	p12
• Canlyniad un: Bwrdd sy'n gweithredu'n dda Cefndir, cynnydd hyd yma, cyflawni yn erbyn cynlluniau ac effaith.	
• Canlyniad dau: Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24 Cefndir, cynnydd hyd yma, cyflawni yn erbyn cynlluniau ac effaith.	
• Canlyniad tri: Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryf Cefndir, cynnydd hyd yma, cyflawni yn erbyn cynlluniau ac effaith.	
• Canlyniad pedwar: Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad Cefndir, cynnydd hyd yma, cyflawni yn erbyn cynlluniau ac effaith.	
• Canlyniad pump: Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun Cefndir, cynnydd hyd yma, cyflawni yn erbyn cynlluniau ac effaith.	
5. Crynodeb o'r effaith	p23
6. 2024/25 a thu hwnt	p24
• Canlyniadau Mesurau Arbennig i Amcanion Strategol y Cynllun Blynyddol.	
• Ymgorffori ymateb Mesurau Arbennig yn y Cynllun Blynyddol.	
• Myfyrdodau allweddol a symud tuag at newid.	
7. Datganiad i gloi	p29

Neges gan Dyfed Edwards, y Cadeirydd a Carol Shillabeer, y Prif Weithredwr ar:

Cynnydd gwella Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y flwyddyn ddiwethaf

Yr adeg hon y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei roi yn y lefel uchaf o ddwysáu; Mesurau Arbennig. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud oherwydd pryderon difrifol am berfformiad, arweinyddiaeth a diwylliant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu llawer o newidiadau yn y bwrdd iechyd gyda chymorth a chyingor gan gynghorwyr annibynnol arbenigol.

Mae arweinyddiaeth a dull gweithredu wedi newid. Mae gennym bellach sylfaen fwy cadarn i adeiladu arni, gyda Phrif Weithredwr, Cadeirydd ac aelodau Bwrdd newydd yn eu lle sydd wedi ymrwymo i wella ein ffyrdd o weithio, sut rydym yn delio â chyllid ac, yn y pen draw, gwella ansawdd y gofal a ddarperir a phrofiadau ein cleifion a'u teuluoedd.

Wrth gwrs, mae llawer mwy i'w wneud eto ac wrth inni barhau ar ein taith wella, rydym wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau gofal iechyd rhagorol a newid cadarnhaol hirdymor i bobl y gogledd

Dangosodd adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd Byrddau fod y bwrdd iechyd yn symud i'r cyfeiriad cywir gyda mwy o sefydlogrwydd. Mae cyfeiriad cliriach tuag at ddiwylliant cadarnhaol a chefnogol ac rydym yn gwybod bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder yn y sefydliad ymysg y cyhoedd, y staff a phartneriaid.

Rydym yn dal i wynebu llawer o heriau, mae gennym wasanaethau sy'n dal i fod angen eu



a mwy i'w wneud i osod sylfeini'r sefydliad rydym ni ei eisiau ac angen bod. Gwyddom fod pobl wedi teimlo'n rhwystredig oherwydd yr amser y maent wedi gorfod aros am apwyntiadau, gofal a thriniaeth, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gallu gwneud cynnydd gwirioneddol o ran lleihau rhai o'r amseroedd aros ar gyfer y rhai sy'n aros hiraf. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu lleihau amseroedd aros wrth inni symud ymlaen.

Mae ein staff yn parhau i weithio'n eithriadol o galed i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar draws lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai. Rydym am eu cefnogi i wneud y swyddi y maent wedi'u hyfforddi'n arbenigol i'w gwneud, yn ogystal â dathlu eu hymdrechion a'u llwyddiannau ar hyd y ffordd.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n staff, ein partneriaid a'n cymunedau i wneud mwy fyth o gynnydd dros y flwyddyn i ddod a thu hwnt.

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig. Mae'r sefydliad wedi bod ar y lefel uwchgyfeirio Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn y gorffennol ac felly mae bellach wedi cael ei uwchgyfeirio i'r lefel uchaf o dan y trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd. Nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y datganiad sy'n cyhoeddi Mesurau Arbennig bryder penodol ynghylch arweinyddiaeth, diwylliant a pherfformiad. Deallir bod wyth maes pryder i gyd, gan gynnwys:

- Llywodraethu ac effeithiolrwydd y bwrdd
- Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu
- Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol
- Arweinyddiaeth dosturiol a diwylliant
- Llywodraethu Clinigol, profiad cleifion a diogelwch
- Cyflawni gweithredol
- Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau
- Iechyd Meddwl

Gwelodd y Bwrdd Iechyd ansefydlogrwydd sylweddol o ran arweinyddiaeth o ganlyniad i 'camweithredu' (Adroddiad Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru - Chwefror 2023) a'r newidiadau sylweddol dilynol i aelodaeth y Bwrdd ym mis Chwefror 2023. Mae'r lefel hon o newid sylweddol wedi bod yn ddigynsail mewn byrddau iechyd ers eu sefydlu yn 2009. Dechreuodd penodiad uniongyrchol Cadeirydd dros dro a thri Aelod Annibynnol y broses o adeiladu Bwrdd newydd. Gwnaed hyn gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn y cyfnod cyntaf ar ôl yr uwchgyfeirio, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi defnyddio nifer o Gynghorwyr Annibynnol fel rhan o Dîm Ymyrraeth a Chymorth i gynnal cyfres o adolygiadau annibynnol er mwyn gallu deall gwraidd y broblem yn well. Amlinellir yr adolygiadau hyn ar dudalen 5.

Cafodd Cynllun Ymateb Mesurau Arbennig ei baratoi ar gyfer y Bwrdd a'i gymeradwyo ganddo ym mis Mai 2023. Roedd y Cynllun Ymateb yn canolbwyntio ar bum canlyniad (a ddangosir gyferbyn) ac roedd yn defnyddio dull sefydlogi cyflym o dri chylch 90 diwrnod a oedd yn rhedeg rhwng 1 Mehefin 2023 a diwedd mis Chwefror 2024, gan fwrw iddi go iawn i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau a wynebir.

Lluniwyd y pum canlyniad nid yn unig i ymateb i'r rhestr o faterion allweddol sy'n peri pryder, ond hefyd i ddechrau adeiladu sefydliad mwy effeithiol sy'n gallu gosod y sylfeini ar gyfer newid hirdymor.


Mae adroddiadau rheolaidd wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Bwrdd a'u cyhoeddi er mwyn gallu dangos cynnydd mewn ffordd agored a thryloyw.

Bydd adroddiad diwedd cylch a'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymateb i Fesurau Arbennig a'r cynnydd arnynt ar gael yma:

<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/mesurau-arbennig/cynnydd-y-bwrdd-iechyd/>



1) Bwrdd sy'n gweithredu'n dda




2) Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24



3) Ymgysylltiad ac arweinyddiaeth cryf



4) Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad



5) Sefydliad sy'n dysgu, ac yn gwella ei hun

Darganfyddiad: Adolygiadau Annibynnol

Comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o Adolygiadau Annibynnol i helpu'r Bwrdd newydd i gael cipolwg cyflym ar feysydd allweddol yn y Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd yr adolygiadau dros y naw mis diwethaf ac maent yn cael eu hystyried yn systematig drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau a byddant i gyd wedyn yn cael eu cyhoeddi ynghyd â chynllun ymateb.

Adolygu	Disgrifiad	Statws
Diogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl	Adolygiad ac arolygiad ansawdd a diogelwch o'r 24 uned Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu i gleifion mewnol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd.	Cyhoeddwyd ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr.
Diogelwch Cleifion	Codwyd nifer o bryderon ynghylch diogelwch cleifion ar draws BIPBC, gan arwain at asesiad o'u dilysrwydd.	Cyhoeddwyd ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr.
Defnyddio a Recriwtio Staff Dros Dro	Asesiad annibynnol o drefniadau dros dro ar gyfer swyddi gweithredol yn BIPBC oherwydd cynnydd yn y defnydd a'r gost.	Cyhoeddwyd ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr.
Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd	Asesiad o brosesau a dogfennau yn Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd, yn ogystal â chefnogaeth a chyfathrebu ag Aelodau Annibynnol.	Cyhoeddwyd ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr.
Rheoli Caffael Contractau	Ymchwiliad i gydymffurfiaid â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o ran contractio a chaffael.	Derbyniwyd adroddiad terfynol gyda chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei drafod mewn pwyllgorau perthnasol cyn ei gyhoeddi.
Systemau Llywodraethu Ansawdd	Adolygiad o reoli ansawdd, sicrwydd, ac ymgorffori gwelliant parhaus ar draws BIPBC.	Mae Cyngorwyr Annibynnol yn gweithio gyda PBC, gan gefnogi datblygiad System Rheoli Ansawdd.
Archwilio Adolygiadau Iechyd Meddwl	Asesiad annibynnol o sut mae argymhellion a wnaed gan adolygiadau blaenorol i wasanaethau Iechyd meddwl yn BIPBC wedi cael eu rhoi ar waith.	Derbyniwyd adroddiad terfynol gyda chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei drafod mewn pwyllgorau perthnasol cyn ei gyhoeddi.
Cynllunio	Adolygiad o agwedd BIPBC at gynllunio strategol, gweithredol a busnes fel agwedd bwysig ar gyflawni amcanion strategol ehangach.	Derbyniwyd adroddiad terfynol gyda chynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei drafod mewn pwyllgorau perthnasol cyn ei gyhoeddi.
Fasgwlaidd	Asesiad sicrwydd o ansawdd gwasanaethau fasgwlaidd ac a yw argymhellion yr adolygiad blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith.	Derbyniodd rhan un arwyddion cadarnhaol o newid gyda rhan dau (gan roi rhagor o sicrwydd) yn debygol o gael ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai 2024.
Portffolios Gweithredol	Mae heriau o ran capasiti a pharhad arweinyddiaeth weithredol wedi arwain at yr angen i sicrhau model staffio uwch mwy cynaliadwy a mwy sefydlog.	Derbyniwyd yr adroddiad ac mae wedi ffurfio cynlluniau'r Prif Weithredwr sydd bellach ar y gweill.

Crynodeb o'r adolygiadau

Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd

Cynhaliwyd Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i ystyried pryderon a godwyd ynghylch; ansawdd papurau'r Bwrdd a'r gallu dilynol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, cynllunio agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn y dyfodol, ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol a'u cefnogi, diffyg eglurder rhwng Pwyllgorau yn ogystal â chwmpas a chyfrifoldebau Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd.

- Nodwyd nifer o feysydd ffocws, gan gynnwys:
- Eglurder o ran strwythur a rolau
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o arferion llywodraethu da
- Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cymru Cynllunio'r cylch busnes

Ers derbyn yr adroddiad, mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn yr holl argymhellion, gyda rhai meysydd yn dibynnu ar adolygiadau neu gynlluniau eraill.

73%

o gamau
gweithredu
wedi'u
cwblhau

wedi'i drefnu
erbyn diwedd
23/24

14%

13%

wedi'i drefnu
erbyn
diwedd
24/25

Defnyddio a Recriwtio Staff Dros Dro

71%

o gamau
gweithredu
wedi'u
cwblhau

wedi'i drefnu
erbyn
diwedd
24/25

29%

Canfu asesiad annibynnol o drefniadau interim ar gyfer swyddi gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod y defnydd o uwch swyddogion dros dro wedi ehangu'n sylweddol dros amser i lefelau "gormodol ac anghynaliadwy", gan ychwanegu at heriau diwylliannol presennol yn y Bwrdd Iechyd a'r angen i sicrhau cydymffurfiaid â phrosesau caffael priodol. Roedd diffyg amlygrwydd o ran y penodiadau hyn i'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth ar y pryd a'r arfer cyffredin o ddefnyddio penodiadau interim am gyfnod hir gydag estyniadau'n gyffredin.

Gwnaeth yr adolygiad nifer o argymhellion ar gyfer:

Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau manwl ynghylch y llywodraethu a'r gofynion sy'n ymwneud â defnydd interim uwch y dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag o

BIPBC i gryfhau prosesau llywodraethu i sicrhau mwy o werth yn ogystal â newid diwylliannol o gyflogi uwch swyddogion dros dro fel 'y norm.'

Ers derbyn yr adroddiad, mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn yr holl argymhellion, gan gynnwys datblygu talent a'r gweithlu, rheoli swyddi gwag a threfniadau llywodraethu mwy cadarn.

Diogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl

Yn flaenorol, bu nifer o gwestau a digwyddiadau proffil uchel yn ymwneud â'r gwasanaeth Iechyd Meddwl yn y Bwrdd Iechyd. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, cododd y Crwner nifer o bryderon ynghylch dysgu o brofiad a rhoi mesurau ar waith i atal digwyddiadau pellach. Cynhaliwyd gwaith maes yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2023, gyda'r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr adroddiad ym mis Mehefin 2023.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys wyth argymhellid:

- 1) Sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael eu hyfforddi i gynnal asesiadau risg clymiadau, gyda risgiau'n cael eu lliniaru cyn gynted â phosibl.
- 2) Sicrhau bod prosesau ar waith i gadarnhau bod yr holl ddogfennau monitro iechyd corfforol yn cael eu cwblhau.
- 3) Cryfhau'r trefniadau uwchgyfeirio a llywodraethu o'r "Ward i'r Bwrdd."
- 4) Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau gweithredol diweddaraf ac yn eu dilyn.
- 5) Sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys staff dros dro, yn cael eu hyfforddi i ddiwallu anghenion cleifion a'u bod yn ymwybodol o feysydd risg posibl.
- 6) Sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu canlyniadau angenrheidiol a arfaethedig cleifion sy'n cael eu derbyn i wasanaethau cleifion mewnol.
- 7) Cryfhau cyfleoedd i dderbyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr.
- 8) Ystyried adolygiad dilynol i sicrhau bod gwelliannau wedi cael eu cynnal a bod camau gweithredu wedi cael eu cwblhau neu ar y trywydd iawn.

o gamau
gweithredu
wedi'u
cwblhau

32%

wedi'i drefnu
erbyn diwedd
23/24

37%

wedi'i drefnu
erbyn
diwedd
24/25

31%

Ers derbyn yr adroddiad, mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn yr holl argymhellion (gan ystyried yr "ail-adolygu" a drafodwyd ar dudalen 8.)

Diogelwch Cleifion

Roedd nifer o bryderon hanesyddol ynghylch diogelwch cleifion ar draws BIPBC wedi cael eu codi ar yr adeg y cafodd eu huwchgyfeirio i Fesurau Arbennig, gan arwain at asesiad o'u dilysrwydd. Roedd y broses adolygu yn cynnwys siarad â staff a oedd wedi mynegi pryderon yn flaenorol, adolygu data ynghylch digwyddiadau i sefydlu patrymau posibl ac ystyried llywodraethu clinigol a seilwaith diogel i bennu cadernid mecanweithiau adrodd.

Roedd yr adolygiad yn awgrymu meysydd ffocws sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r themâu cyffredinol a nodwyd yn yr holl adolygiadau ar y cyd a gynhaliwyd fel rhan o Fesurau Arbennig hyd yma. Mae'r adolygiad hefyd yn cyd-ddibynol ar adolygiadau eraill sy'n cael eu cynnal, yn enwedig o ran systemau llywodraethu ansawdd clinigol. Dyma'r meysydd cyfrifoldeb:

o gamau
gweithredu
wedi'u
cwblhau

11%

wedi'i drefnu
erbyn diwedd
23/24

33%

wedi'i drefnu
erbyn
diwedd
24/25

56%

- **Seilwaith:** mae angen dylunio a gweithredu dull systematig gan ddefnyddio data'n effeithiol.
- **Diwylliant:** Gweithredu a gwreiddio rhaglen newid diwylliannol, gan gynnwys dysgu o ddigwyddiadau.
- **Meysydd clinigol penodol sy'n peri pryder:** Dylid gwneud mwy o waith i gael sicrwydd manylach o ffyrdd o weithio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, eu profiad a'u canlyniadau.
- **Diogelu:** Sicrhau cydymffurfio a hyfforddiant gyfredol.
- **Y gweithlu:** Adolygu capasiti a gallu.

Ers derbyn yr adroddiad, mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni camau gweithredu, gan gynnwys datblygu Dangosfwrdd Ansawdd a ffyrdd newydd o adrodd i'r Bwrdd.

Rheoli Caffael Contractau

Ar ôl uwchgyfeirio Mesurau Arbennig, comisiynwyd adolygiad o reoli contractau a chaffael i adolygu:

- Pob maes contractio a chaffael ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Y cylch contractio a'r polisiau, y gweithdrefnau a'r prosesau presennol ar draws y cylch, a gyflawnir gan staff gweithredol y Bwrdd Iechyd, staff cyllid a thîm caffael lleol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ganolog.
- Cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o ran contractio a chaffael.

Derbyniwyd yr adroddiad terfynol gyda chynllun gweithredu wedi ei ddatblygu yn erbyn y canfyddiadau allweddol, sydd wedi eu grwpio i'r meysydd canlynol:

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none">• Contractio a Chaffael ar draws y Bwrdd Iechyd• Polisiau a gweithdrefnau• Adroddiad Ernst and Young (EY) a chynllun gweithredu dilynol• Archwilio Mewnol ac adolygiadau eraill• Prosesau Hepgor Tendrau Unigol (STW)/Hepgor Dyfynbris Unigol (SQW)• Prosesau cymeradwyo contractau | <ul style="list-style-type: none">• Cymhwyso'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SORD)• Rolau a chyfrifoldebau Archebion Prynu• Amrywiadau mewn lefelau ymarfer a chydymffurfio• Cymharu â hyfforddiant Staff Byrddau Iechyd eraill• Cofrestrau contractau |
|--|---|

Bydd yr adroddiad llawn a'r cynllun gweithredu yn cael eu hystyried gan bwyllgorau perthnasol (PFIG, Mawrth 2024) cyn cael eu cyhoeddi.

Archwilio Adolygiadau Iechyd Meddwl

Arweiniodd pryderon blaenorol ynghylch gwasanaethau Iechyd Meddwl ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr at gyfres o adolygiadau ac adroddiadau allanol yn gwneud argymhellion ar gamau gweithredu i wella gwasanaethau.

Cynhaliwyd yr "ail-adolygiad" neu'r "adolygiad o adolygiadau" hwn ar y cyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion (RRCPsych) Cymru a Choleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) yng Nghymru, ac mae'n darparu asesiad annibynnol o sut mae argymhellion a wnaed gan ymchwiliadau ac adolygiadau blaenorol i wasanaethau Iechyd Meddwl yn BIPBC wedi cael eu rhoi ar waith gan y Bwrdd.

Ym mis Mawrth 2024, mae cyfweiliadau strwythuredig, ymweliadau sampl ac adolygiadau o ddata a dogfennau allweddol wedi cael eu cynnal, gyda'r adroddiad terfynol wedi cael ei dderbyn. Mae arwyddion bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud yn erbyn yr argymhellion a dderbyniwyd yn flaenorol, yn ogystal â rhai meysydd ffocws allweddol, sef:

- Buddsoddi mewn seilwaith: Bydd cofnod gofal iechyd electronig yn hanfodol.
- Gwelliannau yn yr ystâd lle mae cleifion yn derbyn gofal.
- Strwythurau rheoli a sicrhau'r arbenigedd clinigol priodol, ee mewn Gofal Dementia.
- Ymgysylltu ac ymgynghori â staff.
- Cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a chyd-gynhyrchu.

Mae'r adroddiad terfynol bellach wedi'i dderbyn ac mae cynllun gweithredu llawn yn cael ei ddatblygu i'w drafod mewn Pwyllgorau perthnasol.

Systemau Llywodraethu Ansawdd

Mae pryderon am systemau ansawdd y Bwrdd Iechyd, paratoi ar gyfer cwestau a phrosesau ymchwilio a dysgu amlwg o ddigwyddiadau difrifol wedi arwain at adolygiad o'n systemau llywodraethu clinigol ac ansawdd. Yn rhyngddibynnol ag adolygiadau eraill, nod y rhaglen waith hon yw ein cefnogi i ddod yn sefydliad sy'n mabwysiadu dull dysgu systematig o lywodraethu ansawdd a sicrwydd.

Roedd yr adroddiad Diogelwch Cleifion yn nodi risgiau, bylchau a chyfleoedd cydnabyddedig a phosibl o ran y dull rheoli ansawdd presennol. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â sicrwydd ac ymgorffori gwelliant parhaus ar draws BIPBC. Mae angen meithrin diwylliant o gefnogi gwella ansawdd parhaus a dysgu sefydliadol i helpu i ddarparu'r canlyniad a'r profiad gorau i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r gwaith ar Systemau Llywodraethu Ansawdd yn mynd rhagddo ac mae'n mynd rhagddo ochr yn ochr â'r gwaith o ddechrau ar ddatblygu System Rheoli Ansawdd gadarn. Bydd y fersiwn gyntaf yn cael ei datblygu erbyn mis Mai 2024.



Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygu System Rheoli Ansawdd ar gael ar dudalen 21.



Cynllunio

Nod yr adolygiad o Gynllunio yw cael gwell dealltwriaeth o sut mae cynllunio integredig yn cael ei wneud yn BIPBC a nodi meysydd gwella, gan ganolbwyntio'n benodol ar gapasiti a gallu cynllunio strategol. Ers dechrau proses Cynllun Tymor Canolig Integredig Cenedlaethol GIG Cymru, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cynllun tair blynedd ac mae cynlluniau blynyddol wedi bod yn arferol. Fodd bynnag, rydym wedi cael ein canmol am ein hymateb i'r pandemig a'n cynlluniau blynyddol diweddar fel "tystiolaeth o welliant addawol."

Mae gwaith maes yr adolygiad wedi cael ei gynnal drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb ac adolygu dogfennau perthnasol, gyda thri maes argymhelliad allweddol wedi'u nodi:

- Datblygu map llwybr strategol sefydliadol
- Datblygu system gynllunio effeithiol ar gyfer y sefydliad cyfan
- Gwella capasiti a gallu Cynllunio ar draws y sefydliad

Mae'r adroddiad terfynol bellach wedi'i dderbyn ac mae cynllun gweithredu llawn yn cael ei ddatblygu i'w drafod mewn Pwyllgorau perthnasol.

Fasgwlaidd

Ers ad-drefnu gwasanaethau fasgwlaidd ym mis Ebrill 2019, mae nifer o gwestau a digwyddiadau proffil uchel wedi cael eu cynnal sy'n ymwneud â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn ychwanegol at nifer o arolygiadau gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n dynodi gwasanaethau fasgwlaidd yn wasanaeth y mae angen ei wella'n sylweddol ym mis Mawrth 2022.

Mae'r adolygiad hwn yn broses ddwy ran gefnogol i asesu ansawdd gwasanaethau fasgwlaidd ac a yw argymhellion blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith. Ers dechrau'r adolygiad, mae gwasanaethau fasgwlaidd wedi cael eu hisgyfeirio'n ffurfiol gan AGIC ac rydym wedi datblygu dull gweithredu mwy agored, diwygiedig ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â theuluoedd y rheini y mae digwyddiadau blaenorol wedi effeithio arnynt; y byddwn yn parhau i adeiladu arno.

Mae canfyddiadau cynnar yn dangos bod y gwasanaeth fasgwlaidd wedi gwella ac, ym marn yr adolygwyr, mae bellach yn darparu gwasanaeth llawer mwy diogel. Mae tystiolaeth o ffyrdd cydweithredol o weithio gan lawfeddygon fasgwlaidd a rheoli cleifion yn cael eu gyrru gan dîm amlddisgyblaethol, gyda chefnogaeth integredig dda gan y tîm trawsnewid fasgwlaidd.

Mae'n bwysig deall bod gwasanaeth fasgwlaidd BIPBC yn rhannu llawer o'r materion sy'n effeithio ar y rhwydweithiau eraill ledled y DU, gan ei fod wedi'i gyfyngu gan faterion capasiti ond mae ganddo ddyheadau clir i barhau i wella. Yn yr un modd â rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd, mae angen rhagor o newid diwylliannol er mwyn gallu gwreiddio gwelliannau mewn gwirionedd.

Roedd ail gam yr adolygiad diweddaraf yn edrych ar 40 o nodiadau achos mwy diweddar i sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw faterion cyfredol sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau ac yn eu deall. Rydym yn disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei drafod mewn pwyllgorau perthnasol a'i gyhoeddi ym mis Mai 2024.

Portffolios Gweithredol

Ar 23 Chwefror 2023, cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adolygiad o Effeithiolrwydd Byrddau yn BIPBC. Roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â'r Tîm Gweithredol a chapasiti a gallu'r uwch reolwyr, gan gynnwys trosiant sylweddol a gorddibyniaeth ar rolau dros dro ar gyfer swyddi yn y Tîm Gweithredol a'r strwythur uwch reolwyr. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod angen gweithredu ar frys i symud at fodel staffio uwch mwy sefydlog a chynaliadwy.

Felly, pwrpas yr adolygiad o bortffolios gweithredol oedd ystyried a yw'r rolau a'r portffolios yn briodol i fynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau perfformiad, diwylliannol a gweithredol a wynebir.

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr ac fe'i rhannwyd gydag aelodau'r tîm gweithredol. Mae cynllun wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol ac mae'n cael ei roi ar waith.

Adolygiadau a gyhoeddwyd

Mae'r adolygiadau sydd wedi cael eu hadolygu a'r ymateb iddynt hyd yma ar gael ar ein gwefan yma:

<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/mesurau-arbennig/cynnydd-y-bwrdd-iechyd/adolygiadau-annibynnol-an-hymatebion/>

Adolygiadau Annibynnol: Prif themâu



Data, gwybodaeth a dealltwriaeth: Sicrhau bod dull gweithredu ar waith ar draws BIPBC gydag ymyriadau wedi'u blaenoriaethu i wella ein gallu a'n hadnoddau dealltwriaeth, gwybodaeth a data. Mae hyn yn ffactor allweddol i wneud gwelliant cynaliadwy yn bosibl, yn ogystal â helpu'r broses o weld pa wasanaethau allai fod yn destun pryder yn y dyfodol.



Diwylliant: Diffinio'r gwaith hirdymor sy'n angenrheidiol i wella diwylliant y sefydliad, ymgysylltu â'r gwaith hwnnw ac ymrwymo iddo. Integreiddio hynny yn ein cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar gyfer Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu.



Rheoli risg: Adolygu a mireinio ein hagwedd at risg a'n dull gweithredu ar gyfer hynny, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro



Cynnwys cleifion, teuluoedd a gofalwyr: Un dull cydgysylltiedig i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad â'n cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr, gan ddefnyddio eu profiadau i lywio ein gwaith parhaus o wella gwasanaethau.



Model Gweithredu: Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn y ffordd orau, gydag eglurder i bawb ar draws pob lefel o'r sefydliad ar rolau, cyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn uwch adrannau a gwasanaethau ar draws PBC.



Cydymffurfiaeth a llywodraethiant y sefydliad: Sicrhau bod arferion gorau ym maes llywodraethu yn weladwy ac yn cael eu dilyn, ynghyd â dealltwriaeth o hynny ar draws y sefydliad.



Cynllunio integredig: Dull gweithredu integredig ar gyfer cynllunio fel disgyblaeth, gyda dealltwriaeth dda o hynny, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol.

Mabwysiadu themâu'r adolygiad

Ar gyfer yr adolygiadau annibynnol hynny a dderbyniwyd ac ymatebion y rheolwyr wedi'u datblygu, mae cynnydd yn mynd rhagddo o ran cyflawni'r camau gweithredu i gyflawni pob argymhelliad unigol a wnaed.

Rydym hefyd wedi mabwysiadu dull gweithredu thematig o ran dod â chanfyddiadau'r adolygiadau ynghyd er mwyn mynd i'r afael â gwir achosion y materion. Mae hyn yn cael ei oruchwylio drwy'r Grŵp Cyflawni priodol dan Arweiniad y Bwrdd Gweithredol neu lefel lywodraethu gyfatebol. Bydd yn sicrhau bod dysgu a newid yn digwydd ar draws y sefydliad ehangach ac nid dim ond yn yr ardal a adolygydd, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr holl ganfyddiadau unigol yn dal i gael sylw yn yr adolygiadau ar wahân.

Cynnydd: y naw mis cyntaf (o fis Mehefin 2023 ymlaen)

Bu llawer iawn o gynnydd a dysgu ar draws tri chylch naw deg diwrnod o'r naw mis cyntaf. Mae'r adran hon yn trafod y cynnydd ar draws pob un o'r pum canlyniad Mesurau Arbennig. Daeth y cylch olaf i ben ym mis Chwefror 2024 ac yn gyffredinol cwblhawyd **70%** o'r cerrig milltir – gan ei wneud y cylch mwyaf llwyddiannus o ran cyflawni eto.

Canlyniad un: Bwrdd sy'n gweithredu'n dda

Cefndir

Roedd adroddiad gan Archwilio Cymru ar effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Chwefror 2023 yn galw am weithredu ar frys i fynd i'r afael â 'camweithredu' yr adroddwyd amdano yn y Bwrdd. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at sut roedd hyn yn peryglu'r gallu i ddelio â'r heriau niferus yr oedd y Bwrdd lechyd yn eu hwynebu. Beirniadwyd hefyd y nifer uchel o staff dros dro a oedd mewn swyddi o uwch arweinwyr.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yma?

- Penodwyd Prif Weithredwr parhaol a phrofiadol, gyda phrofiad o GIG Cymru.
- Recriwtio Cadeirydd, Is-gadeirydd a Aelod Annibynnol parhaol yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus.
- Cytunwyd ar y Fframwaith Rheoli Risg Newydd yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r gweithredu ar y gweill yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r adolygiadau annibynnol a gafwyd hyd yma wedi cael eu hystyried yn Sesiynau Datblygu Pwyllgorau'r Bwrdd, cyn i'r Ymatebion Rheoli gael eu datblygu. Tynnwyd sylw at y rhain yn yr adroddiadau Mesurau Arbennig rheolaidd i'r Bwrdd llawn.
- Gwnaed cynnydd da yn y trefniadau llywodraethu corfforaethol gan gynnwys strwythurau Pwyllgor y Bwrdd a chylch busnes, gyda phenodiad yn cael ei wneud i rôl ddiwygiedig y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

Mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei rhoi ar waith, gan gynnwys canolbwyntio ar feysydd fel:

- Arweinyddiaeth Dosturiol
- Iechyd Meddwl
- Cynllunio
- Rheoli perfformiad
- Rheoli risg
- Digidol
- Ansawdd
- Cynllunio ar gyfer gwrthsefyll pwysau'r gaeaf

Cyflawni diweddaraf yn erbyn y cynllun

	Cylch 1 (Meh - Awst 23)	Cylch 2 (Awst - Tach 23)	Cylch 3 (Tach - Chwe 24)
Cerrig milltir wedi'u cwblhau	70%	79%	81%
	(14/20 wedi'i gwblhau)	(15/19 wedi'i gwblhau)	(13/16 wedi'i gwblhau)

Meysydd heb eu cyflawni eto

- Mae'r gwaith o weithredu cynllun y Portffolio Gweithredol wedi dechrau, ond bydd o reidrwydd yn parhau yn FY24/25. Nawr bod gennym nifer llawn o Aelodau Annibynnol, ar ôl i'r sesiynau cynefino gael eu cynnal byddwn yn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd mewn sefyllfa fwy sefydlog i fwrw ymlaen â'r gwaith ar lywodraethu corfforaethol, sefydlu'r Grŵp Rheoli Busnes Corfforaethol a rhoi unrhyw bolisiau a gwelliannau newydd ar waith yn llawn.
- Bydd "Polisi ar Bolisiau" wedyn yn cael ei dywys drwy'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i amlinellu'r safonau arfer gorau ar gyfer datblygu polisiau ar draws y Bwrdd Iechyd a chadw atynt.

Pa wahaniaeth sydd wedi'i wneud?

9

Aelod
Annibynnol.

95%

gwelliant yn y
defnydd o staff
asiantaeth dros dro
drud (41
i 2).

11

Aelod
Annibynnol a
Chyswllt wedi
ymgymryd â'r
broses gynefino
newydd.

3

pwylgor
newydd wedi'i
sefydlu*.

6

sesiwn
datblygu'r
Bwrdd wedi
cael ei chynnal.

4

adolygiad
Annibynnol
wedi'u cyhoeddi
hyd yma.

*Pobl a Diwylliant, Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl.



"Yn gyffredinol, yn dilyn cyfnod o darfu a throsiant sylweddol yn ystod 2023, canfuom fod y bwrdd bellach mewn sefyllfa fwy sefydlog." – Archwilio Cymru, Chwefror 2024.

Fe wnaethom groesawu adroddiad diweddaraf Archwilio Cymru (15 Chwefror 2024) sy'n datgan bod y Bwrdd, o'i gymharu â blwyddyn yn ôl, mewn sefyllfa fwy sefydlog a bod y berthynas waith rhwng uwch arweinwyr yn fwy cadarnhaol.

Dywedodd Dyfed Edwards, y Cadeirydd: "Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn sy'n cydnabod y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n deall yn iawn bod llawer mwy i'w wneud wrth inni barhau ar ein taith wella er mwyn sicrhau gwasanaethau gofal iechyd rhagorol i bobl y gogledd."

"Rwy'n gweld adroddiad Archwilio Cymru fel carreg filltir i ddangos ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn. Mae gennym bellach sylfaen gadarn i adeiladu arni, gyda Phrif Weithredwr ac aelodau Bwrdd newydd yn eu lle sydd wedi ymrwymo i wella ein llywodraethu, ein rheolaeth ariannol ac, yn y pen draw, gwella ansawdd y gofal a ddarperir a phrofiadau ein cleifion a'u teuluoedd.

"Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth ein partneriaid a'r Llywodraeth yn ein holl ymdrechion."

Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan [Archwilio Cymru yma](#).
Mae ein hymateb llawn i'r adroddiad [yma](#).

Canlyniad dau: Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24

Cefndir

Mae’r gofynion yn y canlyniad hwn yn ceisio gwella gallu’r sefydliad i ddatblygu gallu wrth gynllunio, gan gydnabod nad yw’r Bwrdd Iechyd wedi gallu datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 3 Blynedd addasadwy ers sefydlu’r gofyniad. Ar ben hynny, mae’r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella perfformiad a llywodraethu ariannol.

Beth rydym wedi’i wneud hyd yma?

- Cynllun Blyneddol (2023/24) wedi’i ddatblygu a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2023. Cafwyd adborth cadarnhaol ar hyn ac mae’n rhoi’r llwyfan ar gyfer symud tuag at ddull cynllun 3 blynedd ar gyfer 2024/27 (mae rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 24).
- Fframwaith Cynllunio Integredig wedi’i ddatblygu, ei gymeradwyo gan y Bwrdd a’i roi ar waith.
- Fframwaith Perfformiad Integredig wedi’i ddatblygu, ei gymeradwyo yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda’r gweithredu wedi dechrau.
- Derbyniwyd adroddiad drafft yr Adolygiad Cynllunio Annibynnol.
- Mae’r Adolygiad Rheoli Caffael a Chontractau Annibynnol wedi cael ei dderbyn, a’i ystyried gan y Tîm Gweithredol ac mae ymateb rheoli wrthi’n cael ei ddatblygu. Cyflwynir adroddiad llawn i’r Pwyllgor Archwilio i’w ystyried ym mis Mai 24.
- Mae’r Camau Rheoli Ariannol wedi mynd rhagddynt yn dda, gyda’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI), y Cynllun Cadw a Dirprwyo (SORD) a’r Rheolau Sefydlog yn cael eu hadolygu a’u cymeradwyo gan y Bwrdd.
- Darparwyd hyfforddiant Caffael wedi’i Dargedu i dros 500 o staff PBC ar wahanol lefelau, gan gynnwys y Tîm Gweithredol.

Cyflawni diweddaraf yn erbyn y cynllun


	Cylch 1 (Meh - Awst 23)	Cylch 2 (Awst - Tach 23)	Cylch 3 (Tach - Chwe 24)
Cerrig milltir wedi’u cwblhau	50%	63%	88%
	(14/28 wedi’i gwblhau)	(15/24 wedi’i gwblhau)	(15/17 wedi’i gwblhau)

Meysydd heb eu cyflawni eto


- Mwy o waith i fod yn sail lawn i heriau a chyfleoedd ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ogystal â chyflawni’r Cynllun Ariannol, gan ystyried blaenoriaethau Mesurau Arbennig a’r Cynllun 3 Blynedd.
- Ymateb i’r Adolygiad Cynllunio a gweithredu’r cynllun gweithredu cysylltiedig yn llawn. Gofynion staffio cyllid rheolaidd a phrosesau recriwtio parhaol parhaus.
- Gofynion staffio cyllid rheolaidd a phrosesau recriwtio parhaol parhaus.

Pa wahaniaeth sydd wedi'i wneud?

Perfformiad ariannol gwell yn amlwg o fis Ebrill 2023 i fis Ionawr 2024 (blwyddyn ariannol bresennol):



Cynnydd yn y cynlluniau arbedion sy'n cael eu darparu drwy gydol mis Ebrill 2023 i fis Chwefror 2024 (blwyddyn ariannol bresennol). Yn rhagori ar y targed erbyn hyn:



Canlyniad tri: Ymgysylltiad ac arweinyddiaeth cryf

Cefndir

Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella sefydlogrwydd arweinyddiaeth yn y sefydliad yn ogystal â galluogi ymgysylltu ac ymwneud mwy effeithiol â staff yn fewnol a rhanddeiliaid a chymunedau yn allanol. Rhaid i'r sefydliad ganolbwyntio ar wella'r diwylliant a'r ffordd y caiff arweinwyr eu denu, eu nodi, eu datblygu a'u cadw. Rhaid gwneud gwelliannau hefyd i'r ffordd y mae'r Bwrdd lechyd yn ymgysylltu ac yn cynnwys cymunedau, staff a rhanddeiliaid. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gref a gweladwy yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys gyda'r cyfryngau a'r cyhoedd, i ail-adeiladu ymddiriedaeth yn y gwasanaethau y mae BIPBC yn eu darparu.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yma?

- Cymeradwyodd y Bwrdd (Medi 2023) ei Fwriad Strategol ynglŷn â datblygu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu, gan gytuno ar naw maes ffocws cychwynnol allweddol.
- Mae Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol newydd wedi cael ei sefydlu i arwain y gwaith, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, ac mae Pwyllgor (Bwrdd) Pobl a Diwylliant newydd wedi cael ei ffurfio, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Bwrdd lechyd.
- Datblygu arweinyddiaeth dryloyw, gadarn a gweladwy yn benodol ar faterion allweddol, ee y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol a chyfweliadau â'r cyfryngau.
- Mae dull gweithredu newydd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cyhoeddus wedi cael ei ddatblygu a'i roi ar waith, gan gynnwys Ffeiriau lechyd a gynhelir mewn canolfannau cymunedol lleol, sy'n galluogi sgysiau rhwng y Bwrdd lechyd a chymunedau lleol.
- Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned yn ystod chwarter 4 2023/24, gan brofi a mireinio'r dull gweithredu ar gyfer digwyddiadau pellach ar draws y rhanbarth yn ystod 2024.
- Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig newydd yn ei gamau datblygu terfynol ar gyfer ei roi ar waith o fis Mawrth 2024 ymlaen.
- Adroddiad 'Gwrando ar Gleifion, Teuluoedd a Chymunedau' drafft a dderbyniwyd gan yr Ymgynghorydd Annibynnol, gyda'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Dull ymgysylltu newydd wedi'i fabwysiadu gyda'r rheini y mae materion gwasanaeth fasgwlaidd yn effeithio arnynt.
- Adolygiad Cyflym o Ymgysylltu Clinigol wedi'i gwblhau, a'i ystyried gan y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol cyn i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ei ystyried.
- Mae cyfres o Gynadleddau Arweinyddiaeth yn cael eu rhoi ar waith. Yn dilyn diwrnod cyfan o sesiwn Bwrdd cyfan ar Arweinyddiaeth Dosturiol, cynhaliwyd cynhadledd ar draws y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol a diwylliant, gyda sesiynau gan yr arbenigwyr Michael West a Henry Engelhardt.
- Mae gostyngiad sylweddol yn y defnydd o staff interim asiantaeth cost uchel o 41 ym mis Rhagfyr 2022 i 2 erbyn diwedd mis Chwefror 2023.

Cyflawni diweddaraf yn erbyn y cynllun

	Cylch 1 (Meh - Awst 23)	Cylch 2 (Awst - Tach 23)	Cylch 3 (Tach - Chwe 24)
Cerrig milltir wedi'u cwblhau	59% (22/37 wedi'i gwblhau)	57% (12/21 wedi'i gwblhau)	79% (23/29 wedi'i gwblhau)

Meysydd heb eu cyflawni eto

- Mae angen gwneud archwiliad llawn o'r Model Gweithredu, gan ddefnyddio gwaith Archwilio Mewnol, adborth gan randdeiliaid/cydweithwyr allanol ac adborth gan gydweithwyr yn fewnol i ddeall buddion a phroblemau.
- Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig: Mae hyn yn dal i gael ei ddatblygu a bydd cael perchnogaeth weithredol ar y fframwaith yn allweddol i sicrhau bod unrhyw newid mewn diwylliant yn cael ei wreiddio'n wirioneddol.
- Ailedrych ar werthoedd y sefydliad a'u diwygio lle bo angen: Mae cael gwerthoedd clir, diffiniedig sy'n hysbys ac yn cael eu hymarfer gan yr holl staff yn nodwedd gydnabyddedig o sefydliadau llwyddiannus.
- Fframwaith ymddygiad: Cael fframwaith ymddygiad y cytunwyd arno ac a ddyluniwyd ar y cyd, sy'n eiddo i'r Bwrdd, ac sy'n amlinellu pa fath o sefydliad rydym am iddo fod a pha fath o sefydliad y mae angen iddo fod.
- Cynllun Datblygu Sefydliadol llawn: Mae gwaith wedi dechrau drwy Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol, sydd wedi'i sefydlu ac wedi dechrau trafod y dull gweithredu a'r ffordd ymlaen ond bydd yn cael ei gyflymu ar gyfer 2024/25 i ganolbwyntio hefyd ar Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Clinigol.
- Ehangu'r defnydd o adborth profiad cleifion fel dealltwriaeth hanfodol i'n gwasanaethau a ffordd o nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.
- Rhaglen Newid Diwylliant: Rhoi'r sylfeini cywir ar waith ar gyfer diwylliant cadarnhaol a chefnogol, gan ystyried adborth Arolwg Staff GIG Cymru.

Pa wahaniaeth sydd wedi'i wneud?

5

Cynhaliwyd sesiynau i randdeiliaid mewn dull newydd o gynnwys a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhanddeiliaid, a amlygwyd drwy ein hymgyrch Cynnydd "Blwyddyn yn Ddiweddarach" y Bwrdd Iechyd.

2

Yr ail arolwg uchaf o'r Arolwg Staff ymhlith Byrddau Iechyd yng Nghymru.

3

Cafwyd tair sesiwn "Ffair lach" i ymgysylltu â'r cyhoedd gydag aelodau o'r cyhoedd ac aelodau'r Bwrdd yn ystod y tri mis diwethaf.

25

Aeth 25 o'n partneriaid, neu gynrychiolwyr ein sefydliadau partner, gan gynnwys cynghorwyr, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector, i gyfarfod briffio cynnydd rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd.



Canlyniad pedwar: Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad

Cefndir

Y canlyniad hwn yw'r maes sydd fwyaf tebygol o gael effaith uniongyrchol ar gleifion a chleientiaid, ac nid yw'n annhebyg i sefydliadau eraill y GIG os oes pwysau sylweddol ar wasanaethau. Fodd bynnag, mae materion penodol yn ymwneud â gwasanaethau Gogledd Cymru sy'n galw am weithredu yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Mae pobl yn teimlo'n rhwystredig am faint o amser y mae'n rhaid iddynt aros am apwyntiadau. Mae gormod o bobl yn ei chael yn anodd cael gafael ar feddyg teulu neu ddeintydd GIG ac mae gormod yn aros yn rhy hir am apwyntiadau yn yr ysbyty a phrofion diagnostig pwysig.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yma?

- **Gofal wedi'i gynllunio:** Sefydlwyd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio newydd i frwr ymlaen â gwelliannau systematig. Mae'r rhain yn cynnwys symleiddio a safoni'r dull o archebu ac amserlennu, gweithredu canfyddiadau ac argymhellion GIRFT (Getting It Right First Time) ar draws sawl maes gwasanaeth clinigol, a rhoi datblygiadau ar waith fel 'Sylw yn ôl Symptomau' a 'Claf yn Sicrhau Dilynant' a'r 3P 'Promote, Prevent and Prepare' (Atal, Paratoi ac Amddiffyn) sy'n cynorthwyo pobl sy'n aros am eu hymyriad gofal wedi'i gynllunio.
- Mae cynnydd wedi cael ei wneud ar draws amrywiaeth o ddangosyddion ynglŷn ag amseroedd aros gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys gostyngiad o 19% yn nifer y bobl sy'n aros 208 wythnos i ddechrau triniaeth, gostyngiad o 63% yn nifer y bobl sy'n aros dros 156 wythnos i gael eu hapwyntiad cyntaf neu i fod wedi dechrau triniaeth a gostyngiad o 21% yn nifer y bobl sy'n aros 104 wythnos o'i gymharu â'n sefyllfa y llynedd.
- **Fasgwlaidd:** Yn dilyn eu hadolygiad ym mis Mehefin 2023, isgyfeiriodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'r gwasanaeth fel 'Gwasanaeth o Bryder'. Mae dwy elfen arall o'r adolygiad yn y broses ar hyn o bryd. Y cyntaf o'r rhain yw adolygiad gan y rhwydwaith Cenedlaethol sy'n adrodd canlyniadau cadarnhaol; mae'r ail wrthi'n cael ei gwblhau.
- **Dermatoleg:** Gwasanaeth sy'n wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i fylchau yn y gweithlu, ond mae cynllun i ddatrys problemau ar unwaith yn cael ei roi ar waith gyda modelu gwasanaeth ar gyfer ateb cynaliadwy yn cael ei roi ar waith. Mae dull gwasanaeth teledermosgopi newydd wedi cael ei gymeradwyo a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- **Wroleg:** Mae'r gwasanaeth hwn o dan bwysau oherwydd heriau'r gweithlu a materion yn ymwneud â ffurfweddu'r gwasanaeth. Mae adolygiad GIRFT ac Adolygiad y Coleg Brenhinol wedi dod i law ac mae cynllun ar gyfer y tymor byr ar waith. Bydd angen cynllunio gwasanaeth tymor hirach ar gyfer yr arbenigedd hwn.
- **Iechyd Meddwl:** Mae nifer o elfennau allweddol o'r gwaith wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys:
- Adolygiad Ansawdd a Diogelwch Cleifion Mewnol: Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o ddiogelwch cleifion mewnol Iechyd Meddwl yng ngwanwyn 2023 a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith o ganlyniad. Mae adolygiad dilynol wedi cael ei gynnal i arsylwi ac i ddangos lle mae gwelliannau wedi cael eu gwneud a'u cynnal. Yn ogystal, gofynnwyd am farn a phrofiad y rhai nad oeddent yn cael eu cynrychioli yn yr adolygiad cyntaf ynglŷn â'u canfyddiadau o gynnydd neu feysydd sy'n peri pryder, ee staff y ward, defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr, yn ogystal â'r rhai a gymerodd ran yn flaenorol.



Mae model gwasanaeth newydd ar gyfer Orthopedeg cymhlethdod isel iawn wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cael ei roi ar waith. Mae'r gwaith o ddatblygu Canolfan Gofal wedi'i Gynllunio wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae'r gwaith datblygu yn Ysbyty Llandudno ar y gweill erbyn hyn. Bydd y safle pwrpasol yn cael gwared ar y risg o ganslo gofal wedi'i gynllunio sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth o ganlyniad i bwysau gofal brys ac argyfwng.

- ‘Adolygu’r Adolygiadau’: Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi edrych yn ôl ar sawl adolygiad sy’n dyddio’n ôl tua 10 mlynedd i ddeall lle mae cynnydd wedi cael ei wneud. (Rhagor o wybodaeth ar dudalen 8).
- Mae perfformiad o ran mynediad at wasanaethau lechyd Meddwl yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae’r gwasanaeth ‘111 a phwyso 2’ newydd bellach yn cael ei gynnis dros gyfnod o 24 awr, gan ddarparu mynediad ar unwaith at gymorth iechyd meddwl. Mae’r gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio’n dda ac mae bellach wedi ffurfio elfen graidd o’r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth.
- **Gofal Brys ac Argyfwng:** Mae gwaith gwella mewn Adrannau Achosion Brys yn ogystal ag ymhellach i mewn i’r ysbytai yn cael ei wneud, gyda Gofal Brys yr Un Diwrnod yn cael ei ddatblygu ymhellach, er enghraifft. O ran oedi o 4 awr wrth drosglwyddo cleifion ambiwlans, roedd rhywfaint o welliant wedi’i gyflawni, ond roedd pwysau’r gaeaf wedi effeithio ar hynny, mae angen rhagor o welliant o hyd. Neilltuoedd y Bwrdd sesiwn yn ei raglen ddatblygu ar gyfer gofal brys ac argyfwng a chynhaliodd sesiwn ‘galw heibio’ ar lwybr cleifion ysbyty yn Ysbyty Gwynedd fis Hydref, cyn ystyried Cynllun Cydnherthedd y Gaeaf yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.
- **Oncoleg:** Mae penodiadau staffio Oncoleg allweddol wedi cael eu gwneud er mwyn gallu trin mwy o bobl o fewn BIPBC ac mae cyfleoedd ar y cyd yn cael eu harchwilio gyda Phrifysgol Bangor.
- **Plastigau:** Cwblhau adolygiad cychwynnol o gleifion dermatoleg gyda chontract ar waith gyda St Helens a Knowsley a model clinigol partneriaeth cyson a model rhannu data ar waith ar draws BIPBC.

Cyflawni diweddaraf yn erbyn y cynllun

Cerrig milltir wedi’u cwblhau	Cylch 1 (Meh - Awst 23)	Cylch 2 (Awst - Tach 23)	Cylch 3 (Tach - Chwe 24)
	69%	62%	53%
	(37/54 wedi’i gwblhau)	(28/45 wedi’i gwblhau)	(27/51 wedi’i gwblhau)

Meysydd heb eu cyflawni eto

- Detailed Demand and Capacity modelling which is key to establishing and ensuring robust service models and making sustainable improvements. Delayed as dependent on external support.
- Further stabilising our “challenged” services, particularly in Dermatology where waiting times are reducing but there is further work required to strengthen the service and manage the timely treatment of skin cancer.
- There is a need to further stabilise and reduce delays in urgent and emergency care, much of which requires working with partners on whole system solutions.
- Adoption of actions as outlined in the Urgent Primary Care Review which assessed the effectiveness of Urgent Primary Care Centres, taking into account learning from across BCUHB and Wales.
- Implementation of the Integrated Urgent and Emergency Care (6 Goals) Plan: Continuing to work with the support of the national programme on local implementations to make a long term sustainable difference.

Mae'n werth nodi, er gwaethaf y pwysau a'r heriau, bod Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd yn y safle 1af yn arolwg Cyngor Meddygol Cyffredinol y DU ar gyfer y safle hyfforddi gorau i feddygon.



Pa wahaniaeth sydd wedi'i wneud?


% y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol ym maes lechyd Meddwl
Oedolion arbenigol.

Targed Llywodraeth Cymru = 80%

2/7 yng Nghymru. 94.4% wedi cyflawni



Gostyngiad o 63% yn nifer y bobl sy'n aros dros 156 wythnos i ddechrau triniaeth.



Lleihau nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 o wythnosau rhwng yr atgyfeiriad a'r driniaeth.



% y plant sy'n aros 14 wythnos neu lai am Weithiwr Proffesiynol Perthynol i lechyd (AHP) penodol.

2/7 yng Nghymru. 95.8% wedi cyflawni.



Mae nifer y bobl sy'n aros dros 8 wythnos am brawf diagnostig wedi gwella gyda,

tua 4000

yn llai o aros ym mis Tachwedd 23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

% trigolion y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun triniaeth dilyn:

91.7%

2/7 yng Nghymru. 1.7 uwchben y targed.

Mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd adran achosion brys a brysbennu gan glinigwr wedi gwella o:

11 munud

ers mis Rhagfyr 2022, nawr 21 munud o'i gymharu â 32 munud yn flaenorol.

81.9%

o'r ymatebwyr i arolwg adborth Amser Real Cymru Gyfan yn teimlo bod eu profiad cyffredinol o gael mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn "dda iawn."

Canlyniad pump: Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun

Cefndir

Mae'n hanfodol er mwyn creu sefydliad effeithiol sy'n gallu rhoi newid hirdymor ar waith, bod sylw ar ddysgu a mecanweithiau sy'n cefnogi gwelliant yn cael ei wreiddio. Mae'r canlyniad hwn felly'n defnyddio elfennau a fydd yn galluogi'r sefydliad i nodi materion a meysydd i'w gwella'n gynharach a meithrin capasiti a gallu i wneud newidiadau ynddo'i hun heb ddibynnu'n drwm ar gymorth allanol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn benderfynol o ddysgu o'i brofiadau ac mae'n datblygu ffyrdd gwell o ddefnyddio'r holl adborth, gwybodaeth (data) sydd ar gael i wella'n barhaus - nawr ac yn y dyfodol.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yma?

- Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu achos busnes i fuddsoddi mewn Cofnod Gofal Iechyd Electronig ar gyfer Gogledd Cymru. Byddai hyn yn golygu bod modd trawsnewid systemau gofal, gan gefnogi staff i gynnig gofal mwy diogel a mwy effeithiol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynglŷn â symud yr achos hwn ymlaen i'r cam nesaf.
- Mae cynnig Rhaglen Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan ganolbwyntio ar ddiabetes (atal a gofal).
- Mae'r adnodd Trawsnewid a Gwella wedi'i alinio â meysydd ffocws allweddol ar y rheng flaen, gan roi cymorth ychwanegol i'r meysydd hynny sydd fwyaf mewn angen.
- Mae Fframwaith Sefydliad sy'n Dysgu yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r diwylliant, y system a'r broses ddysgu.
- Sefydlwyd Rhaglen Ymchwiliadau a Dysgu i adolygu'n ôl-weithredol safonau ac effeithiolrwydd ymchwiliadau sy'n ymwneud â gofal clinigol yn y sefydliad. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar ansawdd cynllunio gweithredu a'r dystiolaeth bod dysgu wedi'i wreiddio wedi digwydd.
- Rhoi hyfforddiant ac arweiniad ar ddefnyddio cynnyrch Gwybodaeth drwy gyfres o sesiynau i gefnogi gallu i ddod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wybodaeth.



Mae'r gwaith o ddatblygu System Rheoli Ansawdd ar gyfer y sefydliad yn mynd rhagddo. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Sefydliad Gwelliant Gofal Iechyd a Gwelliant Cymru i ddatblygu dealltwriaeth gref o systemau ansawdd mewn gofal iechyd. Rhagwelir y bydd y Bwrdd yn ystyried System Rheoli Ansawdd (Fframwaith) ddrafft ym mis Mai 2024, gan brofi, adeiladu a mireinio'r system ar ôl hynny. Mae dysgu gan sefydliadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol yn cefnogi'r gwaith hwn.

Cyflawni diweddaraf yn erbyn y cynllun

**Cerrig
milltir
wedi'u
gwblhau**

**Cylch 1
(Meh - Awst 23)**

74%

(17/23 wedi'i
gwblhau)

**Cylch 2
(Awst - Tach 23)**

76%

(13/17 wedi'i
gwblhau)

**Cylch 3
(Tach - Chwe 24)**

79%

(15/19 wedi'i
gwblhau)

Meysydd heb eu cyflawni eto

- Datblygu storfa ddysgu ganolog a digidol a phrototeip system raeadru, yn seiliedig ar Office 365: Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu fel dull o ddysgu o ddigwyddiadau, gan ddefnyddio setiau data cyson sy'n hwyluso dysgu ar y cyd, meincnodi a mesur cynnydd.

What difference has been made?

400+

mae pobl wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddi pwrpasol Gwella Ffordd Betsi.

16

smae meysydd gwasanaeth yn cael eu cefnogi i wneud gwelliannau parhaol, gan gynnwys y tu allan i feysydd ffocws Mesurau Arbennig.

10

llwybrau'n cael eu hailgynllunio neu eu gwreiddio gyda chyfranogiad clinigol, gweithredol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â chymorth pwrpasol yn y gwasanaethau fasgwlaidd.



Ar sail adborth gan ddefnyddwyr, bydd system deleffoni newydd ar gyfer pobl sy'n ffonio gyda chwynion ac ymholiadau yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2024.



Ar sail adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff, mae'r gwasanaeth cymryd gwaed yn y Dwyrain wedi cael ei newid i gefnogi mwy o bobl i gael eu hapwyntiadau'n nes at lle maen nhw'n byw.

Canolbwyntio ar Ddiabetes yn 2024/25:

Mae adolygiad cychwynnol o wybodaeth a thystiolaeth yn awgrymu bod tri phrif faes lle gallai BIPBC wella canlyniadau iechyd i bobl â diabetes a darparu gwasanaethau mwy effeithiol a chynaliadwy. Dyma nhw:

Atal pobl rhag datblygu diabetes. Datblygu modelau gofal sylfaenol a chymunedol effeithiol. Gwella'r deallusrwydd i gynllunio a rheoli gofal diabetes.

Wrth wraidd hyn mae trawsnewid gwasanaethau sylfaenol a chymunedol fel eu bod yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar â diabetes er mwyn cadw pobl yn iach a pheidio â bod angen ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol dwys.

Bydd gwaith yn ystod 24/25 yn mynd i'r afael â thri chwestiwn allweddol:

- 1) Sut beth fyddai modelau effeithiol o ofal diabetes mewn gofal sylfaenol a chymunedol (ee gweithio mewn partneriaeth â systemau sy'n cynnwys mudiadau Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol statudol a Gwirfoddol) a sut y cefnogir hyn gan wasanaethau eilaidd ac arbenigol?
- 2) Sut mae symud adnoddau tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar a gyflwynir gan y modelau newydd o ofal diabetes?
- 3) Sut ydyn ni'n gweithio gyda chymunedau ac unigolion i'w galluogi i gefnogi'r gwaith o reoli materion iechyd yn weithredol ee drwy bresgripsiynu cymdeithasol a sut ydyn ni'n cyd-ddatblygu ac yn darparu gofal diabetes gyda'n cymunedau?

18

diwrnod o ran gwella amseroedd taith diagnosis cancer y prostad o ganlyniad i ddull 'syth am brawf' newydd.

5a6

mlynedd o aros wedi'i ddileu

9

Aelod Annibynnol o'r bwrdd, gan gefnogi arweinyddiaeth gryfach a mwy sefydlog.

63%

gwelliant yn nifer y bobl yn aros dros 156 wythnos i gael eu hapwyntiad cyntaf neu i fod wedi dechrau triniaeth

Yn

gryno...

Rydym wedi lleihau'r defnydd o staff 'dros dro' o

41 i 2

sy'n lleihau contractau drud, tymor byr.

>200

llai o bobl yn aros dros 208 wythnos i gael eu hapwyntiad cyntaf neu i fod wedi dechrau triniaeth.

500+

o staff sydd wedi'u hyfforddi ym maes caffael/sut rydym yn talu am wasanaethau, gan ganiatáu i ni reoli'r arian yn well.

21%

llai o bobl yn aros 104 wythnos i ddechrau triniaeth.

>£29m

O fuddsoddiad wedi'i sicrhau i ddatblygu canolfan gofal wedi'i chynllunio yn Llandudno, sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn cael eu gweld yn gynt mewn safle pwrpasol.

tua 4000


yn llai o bobl yn aros mwy nag 8 wythnos am brofion diagnostig hanfodol.



2023/24 Canlyniadau Mesurau Arbennig



Bwrdd sy'n gweithredu'n dda



Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24



Ymgysylltiad ac arweinyddiaeth cryf



Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad



Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun



2024/25 Prifysgol Betsi Cadwaladr Amcanion Strategol



Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun




Datblygu strategaeth a newid hirdymor



Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol



Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad



Sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol

Gwreiddio ein hymateb i Fesurau Arbennig yn ein Cynllun 3 Blynedd

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 bron â chael ei gwblhau, gyda disgwyliad y bydd y cynllun Mesurau Arbennig yn cael ei ymgorffori â Chynllun 2024-27 y Bwrdd lechyd. O ystyried y bydd gorgyffwrdd sylweddol rhwng y gofynion gwella a amlinellir mewn Mesurau Arbennig a'r blaenoriaethau sy'n cael eu cynnwys yng Nghynllun 2024-27, mae hyn yn caniatáu dull cynllunio a goruchwyllo symlach a mwy effeithlon yn y Bwrdd lechyd yn y dyfodol.

Roedd dull y Bwrdd lechyd o ymdrin â Mesurau Arbennig yn dangos ffocws a chyflymder sylweddol a bydd yn cael ei ddatblygu er mwyn gallu cynllunio yn y tymor hirach. Sicrhau bod y meysydd ffocws penodol wedi'u gwreiddio'n llawn yn y Cynllun 3 Blynedd ac yn adlewyrchu'r sefyllfa fwy sefydlog y mae'r Bwrdd bellach ynddi. Y prif ffocws fydd ar brosesau cynllunio 'busnes fel arfer', gan ymgorffori'r holl ddysgu i ddarparu monitro integredig, sicrwydd ac adrodd yn erbyn cynlluniau.

1) Creu sefydliad effeithiol: meysydd ffocws allweddol

Effeithiolrwydd y Bwrdd

- Cwblhau'r broses o recriwtio aelodau Gweithredol y Bwrdd yn barhaol.
- Datblygu Rhaglen Datblygu'r Bwrdd, gan gefnogi Bwrdd sydd wedi'i benodi'n barhaol.
- Cwblhau'r gwaith o ailsefydlu nifer lawn o bwyllgorau'r Bwrdd.
- Adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a benodwyd yn ddiweddar.



Rheoli risg

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gydnaws â pharodrwydd i dderbyn risg, cynllun blynyddol, ac amcanion strategol sy'n dod i'r amlwg y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu dangosfwrdd rheoli risg i wella triangli gyda Chynllunio a Pherfformiad yn ogystal â chyfarwyddiaethau eraill.

Model Gweithredu

- Cwblhau'r archwiliad o'r Model Gweithredu, gan ddefnyddio gwaith Archwilio Mewnol, adborth gan randdeiliaid/cydweithwyr allanol ac adborth gan gydweithwyr yn fewnol i ddeall buddion a phroblemau.
- Asesu'r model Partneriaethau Busnes ar draws y sefydliad, gan lunio cynigion ar gyfer adolygu lle bo angen.
- Datblygu cynigion ar gyfer unrhyw adolygu i'r model gweithredu presennol, gan ystyried agwedd ofalus tuag at newid cefnogol.
- Nodi cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon drwy ddefnyddio offer digidol ee Microsoft Office 365.
- Adolygu a diwygio'r model arweinyddiaeth glinigol yn y sefydliad lle bo angen, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad Cyflym o Ymgysylltu (Clinigol), i adeiladu dull arweinyddiaeth glinigol ac ymgysylltu cryfach.

System Rheoli Ansawdd

- Yn ystod 2024-25, bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau'r gwaith o ddylunio System Rheoli Ansawdd briodol ar gyfer ei defnyddio ar draws y sefydliad.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu'r System Rheoli Ansawdd drwy gydol 2024-27 i sicrhau ei bod yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Ddyletswydd Ansawdd.
- Cytuno ar gynllun gweithredu rheolaeth ariannol FY24/25, gan gynnwys y camau nesaf sy'n gysylltiedig â phrosesau Sicrwydd y Grŵp Buddsoddi Rheolaidd (RIGA) a Phanel Adolygu Rheoli'r Sefydliad
- Adolygiad Rheoli Caffael Contract - Deall, ystyried argymhellion a chytuno ar gynllun gweithredu dilynol drwy'r Pwyllgor PFIG a'i gyhoeddi drwy'r Bwrdd. Rhoi cynllun gweithredu ar waith gan gynnwys cwblhau hyfforddiant caffael priodol i gynnwys: hyfforddiant cychwynnol i staff presennol, hyfforddiant cyfnodol parhaus a phroses gynefino.



2) Datblygu strategaeth a newid hirdymor: meysydd ffocws allweddol

Cynllunio

- Adolygiad Cynllunio - Deall, ystyried argymhellion a chytuno ar gynllun gweithredu dilynol drwy'r Pwyllgor PFIG a'i gyhoeddi drwy'r Bwrdd.
- Meysydd ffocws yr adolygiad a dysgu FY24/25 i ganolbwyntio ar: a) Datblygu map llwybr sefydliadol, b) Cynllunio system gynllunio i gefnogi'r agenda newid, c) Deall y capasiti a'r gallu i gefnogi'r agenda newid.

Dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu herio

- Ymarfer myfyrio i nodi'r themâu a'r fflagiau cyffredin a nodwyd wrth fynd i'r afael â'r gyfran gyntaf o wasanaethau sy'n cael eu herio.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddysgu o'r gwaith y maent eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn.
- Gan ystyried y gweithgareddau uchod, dechrau dull triangli clir yn y Bwrdd Iechyd sydd wedi'i ddylunio i nodi gwasanaethau sy'n cael eu herio yn gynharach.
- Ymgysylltu â'r gwaith cenedlaethol sy'n edrych ar 'wasanaethau bregus' sy'n rhan o raglen waith y ffrwd waith amrywiad clinigol a ffurfweddu gwasanaethau yn y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd.

Cyfraniad digidol at y Portffolio Newid Mawr

- Symud y gwaith Cofnod Gofal Iechyd Electronig ymlaen i gael ei ystyried ar gyfer cymeradwyaeth ariannol ac yna ei weithredu. Yn bwysig, fel rhan o raglen newid ehangach, nid ymdrech “ddigidol yn unig.”

3) Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol: meysydd ffocws allweddol

Mae Datblygu Sefydliadol yn broses barhaus ac felly ni fydd yn cael ei chwblhau o yn 2024/25. Yn ystod 2024/25 bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Datblygu a dechrau'r gwaith o weithredu'r Rhaglen Newid Diwylliannol.
- Cymeradwyo a gweithredu Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth y sefydliad.
- Cyflwyno dulliau gweithredu i alluogi'r Bwrdd a'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar brofiad staff, gan gynnwys straeon am brofiad staff.
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu'r pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd a sicrhau bod y pwyllgor yn gweithio'n effeithiol.



Ymgysylltu â Chynnwys Dinasyddion a Chleifion

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn creu rhaglen ymgysylltu eang gyda chymunedau ar draws Gogledd Cymru, gan roi cyfleoedd i ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Bydd Adroddiad Profiad y Dinesydd, a gynhyrchir bob yn ail gyfarfod o'r Bwrdd, yn rhoi gwybod i aelodau'r Bwrdd am y prif themâu sydd o ddiddordeb a phryder i'r cyhoedd.
- Bydd Gweithgor Ymgysylltu yn gweithredu fel catalydd ar gyfer cydweithio cryfach ar draws y sefydliad a gyda chydweithwyr a dinasyddion annibynnol (ee Llais, Cadeiryddion y Fforwm). Bydd yn adeiladu cynhyrchiad gwirioneddol ar y cyd o ran ymgysylltu a phrofiad cleifion ac yn dod ag arbenigedd a gwybodaeth ynghyd. Bydd y Grŵp yn datblygu Ffordd Ymgysylltu Betsi ac yn gwreiddio hyn ar draws y sefydliad.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn dysgu o ymgysylltu â theuluoedd, gwrandao ar straeon teuluol yn ystod adolygiadau, deall yr hyn y mae ar deuluoedd ei angen o hyd a sut y gallant gymryd rhan yn rheolaidd a datblygu dull gweithredu sy'n cael ei wreiddio.

Profiad cleifion

- Ehangu'r cynnig i gleifion lenwi holiaduron Profiad Cleifion ar ôl defnyddio gwasanaethau clinigol (lleoliadau cleifion allanol, cleifion mewnol ysbyty aciwt ac Adrannau Achosion Brys).
- Ymgorffori system dadansoddi adborth sy'n caniatáu cydnabod arfer da (i'w ledaenu) a chyfleoedd rhybudd cynnar lle gallai fod angen ymyrraeth a chymorth ychwanegol.
- Ymgorffori adroddiadau adborth ar gyfer sicrwydd i'r cyhoedd, y Bwrdd a phartneriaid.



4) Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad: meysydd ffocws allweddol

Challenged services

Gwasanaethau sy'n cael eu herio

Parhau i sbarduno gwelliannau ar draws gwasanaethau a meysydd clinigol allweddol sy'n cael eu “herio”: Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Brys ac Argyfwng, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Niwroamrywiaeth, Fasgwlaidd, Wroleg, Offthalmoleg, Oncoleg, Dermatoleg, Plastigau, Orthodonteg, Orthopedeg.


Rhaglen Iechyd Cyhoeddus

- Parhau i fireinio, datblygu a chyflwyno rhaglen Diabetes Iechyd y Cyhoedd ym maes Gofal Iechyd.
- Adolygu pa feysydd eraill sy'n gallu dilyn yr un model.

5) Sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol: meysydd ffocws allweddol

Learning Organisation

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau ei adolygiad o sut mae'r sefydliad yn ymchwilio ac yna'n dysgu o ddigwyddiadau difrifol.
- Bydd y Bwrdd Iechyd wedyn yn rhoi newid ar waith i fynd i'r afael â'r gwelliannau posibl a nodwyd drwy'r adolygiad. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymhwyso egwyddorion y System Rheoli Ansawdd sy'n cael ei datblygu, gan gynyddu'r cyfle i roi'r dysgu ar waith ymhellach.



Dan arweiniad gwybodaeth

Bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 2023/24 er mwyn:

- Sefydlu fforwm llywodraethu ac ansawdd data'r Bwrdd Iechyd.
- Cyflwyno system nod barcud data.
- Datblygu warws data PBC ymhellach, gan ehangu'r amrywiaeth o setiau data sydd ar gael.
- Cynnal dadansoddiad o anghenion sgiliau / hyfforddiant i lywio cynllun gwaith llythrennedd data.
- Datblygu gallu sefydliadol o ran dadansoddi a chynllunio galw a chapasiti.
- Nodi meysydd blaenoriaeth a gwella ymgysylltiad clinigol â data gan ddefnyddio System Gwybodaeth Iechyd Gymharol (CHKS) fel yr adnodd meincnodi clinigol a ddewiswyd.
- Gweithredu safonau dangosfwrdd, gan gymhwyso egwyddorion dylunio ac ymgorffori stiwardiaeth data.

Myfyrdodau allweddol a symud tuag at newid

Y Prif Wersi a Ddysgwyd o'r dull Mesurau Arbennig:

1

Bod yn gwbl eglur ynghylch y materion penodol sy'n peri pryder.

2

Y swm o waith sylfaenol sydd ei angen i alluogi gwelliannau yn y dyfodol.

3

Mae cylchoedd 90 diwrnod yn cefnogi cyflymder ond mae angen cynlluniau.

4

Adolygiadau Annibynnol – ansawdd, hyd a ffocws ar gamau gweithredu.

5

Nid yw Mesurau Arbennig fel lefel uwchgyfeirio yn rhaglen ganolog.

Mae'r ffocws dros y naw mis diwethaf wedi bod ar 'sefydlogi', gan wneud y newidiadau mwyaf sylweddol ac uniongyrchol sydd eu hangen ar ôl symud i Fesurau Arbennig i barhau i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gogledd Cymru.

Yn ystod 2024-2027, bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar hyn i weithredu dull sy'n sicrhau dull o ddarparu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru sy'n fwy 'safonol', gan wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi'r Bwrdd Iechyd ar sylfaen 'cynaliadwy' ar gyfer y dyfodol.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau symud ymlaen mewn nifer o feysydd ac er bod llawer o heriau o hyd, mae ymrwymiad i gymryd y gwersi a ddysgwyd o'r prosesau a gyflwynwyd i sicrhau bod BIPBC yn sefydliad sy'n gallu cynllunio'n rhagweithiol, nodi risgiau a heriau a rhoi camau gweithredu angenrheidiol ar waith i fynd i'r afael â nhw.

Bydd gwreiddio'r ymateb i Fesurau Arbennig yn y Cynllun 3 Blynedd yn galluogi'r sefydliad i symud drwy bob un o'r camau a amlinellir uchod a gwneud gwelliannau gwirioneddol a pharhaol i wasanaethau. Bydd gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Iechyd ar draws y system gyfan, ynghyd â chefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei sefydlu'n gynaliadwy ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Mae llawer iawn i'w wneud o hyd...



Er ein bod yn falch iawn bod adroddiad diweddar Archwilio Cymru yn cydnabod y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf a'n bod yn gallu cyfeirio at enghreifftiau o gynnydd sydd ar y gweill, rydym yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud o hyd wrth i ni barhau ar ein taith wella.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd rhagorol i bobl y gogledd ac yn gwybod bod pobl yn dal i aros yn hirach nag y byddem yn ei ddymuno, neu'n teimlo'n rhwystredig ynghylch eu profiadau o'n gwasanaethau. Rydym hefyd yn gwybod bod gennym ni staff gwych sydd gyda ni ar y daith hon, ac rydym yn diolch i bob un am eu gwaith caled a'u hymrwymiad parhaus. Rydym yn gobeithio y bydd cam nesaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i adeiladu ar y sefydlogi rydym wedi ceisio ei gyflawni ac y gall pobl weld y cyfle sydd gennym nawr i drawsnewid ein hunain a'n gwasanaethau.

Rydym wedi croesawu'r gefnogaeth gan ein partneriaid a gan Lywodraeth Cymru a dros y 12 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio ar y pethau canlynol osut gallwn ni sicrhau bod ein dull gweithredu ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yn cael ei ailadrodd a'i ddatblygu er mwyn i ni allu adeiladu sefydliad effeithiol, gyda chynllun cadarn ar gyfer newid hirdymor er mwyn i ni allu gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad yn llwyr.



Rydym eisiau cael ein hadnabod fel sefydliad sydd â diwylliant tosturiol, gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad amlwg â staff, partneriaid a'n cymunedau i fod yn Fwrdd Iechyd maen nhw'n ymddiried ynddo ac y gallan nhw fod yn falch ohono.

Rhaid i ni ddysgu o'r gorffennol, o'n profiadau blaenorol, ac rydym wedi ymrwymo i wella'n barhaus.

Diolch i bawb am gymryd rhan yn ein taith hyd yma ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

"Mae gan y bwrdd gyfle i adfywio ei hun ac arwain y sefydliad drwy'r heriau y mae'n parhau i'w hwynebu." – Archwilio Cymru, Chwefror 2024

Dyfed Edwards,
Cadeirydd, BIPBC

Carol Shillabeer,
Prif Weithredwr, BIPBC



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Mae rhagor o wybodaeth yma:

<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/mesurau-arbennig/cynnydd-y-bwrdd-iechyd/>



Bwrdd sy'n
gweithredu'n dda



Cynllun clir y gellir ei
gyflawni ar gyfer
2023/24



Ymgysylltiad ac
arweinyddiaeth
cryf



Gwell mynediad,
canlyniadau a
phrofiad



Sefydliad sy'n dysgu
ac yn gwella ei hun